**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (11)**

**Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2002**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Sesiwn am 2.00pm**

## Ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

*NDM1080* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu:

1. Bod pwyllgor, a gaiff ei alw'n Bwyllgor Penderfyniad Cynllunio 2002-5 yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 35, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan adrannau 77(1) a 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn (ynghyd, yn achos y mater cyntaf a'r trydydd mater yn yr atodlen, â swyddogaethau'r Cynulliad o dan adrannau 8, 12 ac 20 o Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn hynny o beth yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Tom Middlehurst AC
Val Lloyd AC
David Davies AC
Brian Hancock AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn dod i ben pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 35.16 neu ar 5 Gorffennaf 2002, pa un bynnag a ddaw gyntaf;

4. Os bydd y Pwyllgor yn dod i ben heb i'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr atodlen i'r cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r cyfryw fater, yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

## Atodlen

- apêl cynllunio ac apêl caniatâd adeilad rhestredig gan Gryphon Corporation Cyf ar gyfer bwlch drws newydd arfaethedig i Apartment 2, y Victorian Wing, Trawsgoed, Aberystwyth.

- cais cynllunio wedi'i alw i mewn gan Mr C Alford ar gyfer annedd amaethyddol newydd yn Castle Lands, Pencelli, Aberhonddu
- cais cynllunio wedi'i alw i mewn a chais am ganiatâd adeilad rhestredig gan Gyngor Sir Powys ar gyfer Cymal III Ffordd Liniaru Fewnol Aberhonddu o'r Struet i Ship Street, Aberhonddu a dymchwel adeiladau rhestredig.

  **Cynhaliwyd pleidlais**

  O blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 31

  **Derbyniwyd y cynnig.**

**2.01pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**Datganiad ar ymweliad Jenny Randerson â'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig - *Gohiriwyd yr eitem hon tan ddydd Iau, 20 Mehefin.***

**2.44pm**
**Datganiad: Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y Newidiadau i'r Cabinet**

**3.16pm**
**Pwyntiau o Drefn**
**Ron Davies** ynghlych a fyddai'n bosibl i gynnal pleidlais gudd i ethol Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.
**Ron Davies** ynghylch a oedd y newidiadau yn nyletswyddau'r Gweinidogion yn cyd-fynd ag adran 57 Deddf Llywodraeth Leol Cymru 1998.

**3.26pm**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar Gyhoeddiad Adnewyddu Consignia**

**3.53pm**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Lywodraeth Agored**
**Cytunwyd ar y datganiad busnes.**

**3.57pm**
**Symud y Cyfarfod Llawn o ddydd Iau i ddydd Mercher**
*NDM1077* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, o fis Hydref 2002, yn cynnal ei ail gyfarfod llawn bob wythnos ar ddydd Mercher gan ddechrau am 2:00 pm yn hytrach nag ar ddydd Iau gan ddechrau am 9:05 am.

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 46

**Derbyniwyd y cynnig.**

**4.00pm**
**Dadl ar faterion Ewropeaidd ac adroddiad blynyddol y Pwyllgor Materion Ewropeaidd**
*NDM1079* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol 2001-2002 y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol;

2. Yn cydnabod yr hyn a wnaed i ddatblygu ymhellach gyfranogiad cynyddol Cymru ym mhroses bolisi'r UE ac yn arbennig ei chyfraniad at y drafodaeth ar Lywodraethu Ewropeaidd;

3. Yn nodi'r hyn a wnaed o ran rhoi rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar waith yng Nghymru;

4. Yn cydnabod y camau breision a gymerwyd i gyfrannu at y broses Ehangu.

*Gosodwyd Adroddiad Blynyddol 2001-2002 y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ger bron y Swyddfa Gyflwyno ddydd Llun, 10 Mehefin 2002.*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 2 a rhoi pwynt 2 newydd yn ei le:
"Yn gresynu at benderfyniad unochrog y Prif Weinidog i dynnu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl o Ganolfan Ewropeaidd Cymru."

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 3 a rhoi pwynt 3 newydd yn ei le:
"Yn gresynu nad yw’r sector preifat yn cael ei gynnwys mewn modd boddhaol wrth roi prosiectau Amcan Un ar waith, gan arwain at effeithiau difrifol yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd ac, yn wir, yng Nghymru gyfan, o ran lleihau y bwlch rhwng CMC Cymru ac CMC Lloegr."

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Y cynnig**

O blaid 31; Ymatal 13; Yn erbyn 7; Cyfanswm 51

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig ar TGCh yng Nghefn Gwlad Cymru *- Ni symudwyd yr eitem hon.***
*NDM1078* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig o'r enw "Adroddiad ar TGCh yng Nghymru Wledig" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2002.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.05pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 20 Mehefin 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF